

CYNLLUN PRESWYLIO’N SEFYDLOG I DDINASYDDION YR UE YM MRO MORGANNWG



I gael rhagor o wybodaeth am gynllun Preswyllo’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, gan gynnwys y cymorth sydd ar gael, ymwelwch â

gov.uk/eu-settled-status

CYNLLUN PRESWYLIO'N SEFYDLOG I DDINASYDDION YR UE

Os ydych chi'n ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd (UE), dinesydd Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'n ddinesydd o'r Swistir, bydd modd i chi a'ch teulu wneud cais am statws preswlydd sefydlog neu statws preswlydd cyn-sefydlog.

Golyga hyn y bydd modd i chi barhau i fyw yn y DU ar ôl **31 Rhagfyr 2020**. Mae gyda chi tan **30 Mehefin 2021**, neu **31 Rhagfyr 2020** os yw'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb, i wneud cais am statws preswlydd sefydlog neu statws preswlydd cyn-sefydlog.

Bro Morgannwg yw un o'r awdurdodau lleol sy'n cefnogi dinasyddion yr UE, AEE a dinasyddion y Swistir i gwblhau'r rhan gwirio hunaniaeth (ID) o'r broses ymgeisio.

Dim ond pasbortau biometrig yr UE ar gyfer dinasyddion yr UE neu Drwydded Breswyl Biometrig (BRP) a gafwyd gan y DU ar gyfer aelodau o'r teulu y gall yr awdurdod lleol eu derbyn at ddibenion y gwasanaeth gwirio.

Dyma'r symbol sy'n cadarnhau bod y ddogfen yn un biometrig



Ni fydd raid i ni gadw'ch dogfennau ID ac yn y rhan fwyaf o achosion, fydd dim disgwyl i chi anfon eich pasbort i unman arall yn ystod y broses gwneud cais am statws preswlydd sefydlog neu statws preswlydd cyn-sefydlog.

Cofiwch, os ydych chi eisoes wedi cyflwyno cais am breswlydd sefydlog neu breswlydd cyn-sefydlog, mae'n rhaid i chi anfon eich dogfen adnabod (ID) yn y post i'r Swyddfa Gartref. Cofiwch, **ni ellir** defnyddio gwasanaeth gwirio ID yr awdurdod lleol os ydych chi eisoes wedi dechrau ar eich cais ar-lein neu wedi anfon y cais yn y post.

Os ydych chi eisoes wedi ymgeisio i ddefnyddio'r opsiwn hunanwasanaeth ac wedi cyflwyno eich cais heb gwblhau'r broses gwirio ID, yna, mae'n rhaid i chi gysylltu â'r Swyddfa Gartref: <https://www.gov.uk/contact-ukvi-inside-outside-uk/y/inside-the-uk/eu-settlement-scheme-settled-and-pre-settled-status>

PWY ALL YMGEISIO I'R CYNLLUN PRESWYLIO'N SEFYDLOG?

Mae'r wybodaeth ynghylch pwy sydd angen gwneud cais am statws preswlydd sefydlog neu statws preswlydd cyn-sefydlog yma: Gov.uk website.

Fydd dim newidiadau i hawliau presennol dan ddeddfwriaeth yr UE tan ddiwedd y cyfnod gweithredu wedi'i gynllunio, sef **31 Rhagfyr 2020**.

CYNLLUN PRESWYLIO'N SEFYDLOG I DDINASYDDION YR UE

GWASANAETH GWIRIO HUNANIAETH YR AWDURDOD LLEOL

Os hoffech chi wneud apwyntiad i gyflawni'r broses gwirio ID, ffoniwch Canolfan Gyswllt Bro Morgannwg - 01446 700111 neu e-bostiwch
Registrationservice@valeofglamorgan.gov.uk

BETH I DDOD GYDA CHI I'R APWYNTIAD

- eich pasbort **biometrig dilys** UE, AEE neu Swisaidd cyfredol neu Drwydded Breswyllo **Biometrig ddilys** (BRP) ar gyfer aelodau'r teulu sy'n ddinasyddion yr UE, AEE neu sy'n ddinasyddion Swisaidd
- ffôn symudol a all dderbyn negeseuon testun neu ddyfais all dderbyn e-byst

Dim ond y dogfennau ID uchod allwn ni eu gwirio. Os nad oes gyda chi un o'r dogfennau ID uchod, cliciwch ar y ddolen isod i weld eich opsiynau.

Dysgu mwy am y cynllun preswyllo'n sefydlog ar gyfer dinasyddion yr UE

Dyma gost Gwasanaeth Gwirio ID Cyngor Bro Morgannwg:

1. £15.00 y pen (gan gynnwys TAW)
2. **AM DDIM** i ymgeiswyr all brofi eu bod nhw'n preswyllo yn Ardal Bro Morgannwg (Rhaid dangos tystiolaeth preswyllo ar adeg yr apwyntiad):
 - Datganiad y Dreth Gyngor presennol dyddiediy yn y 12 mis diwethaf
 - Trwydded yrru â llun yn dangos cyfeiriad presennol
 - Bil trydan/dŵr/nwy dyddiedig y 3 mis diwethaf
 - Datganiad Banc / cymdeithas Adeiladu dyddiedig o fewn mis i'r cais
3. **AM DDIM** i gyflogeion Cyngor Bro Morgannwg (Rhaid dangos tystiolaeth o gyflogaeth ar adeg yr apwyntiad) dogfennau derbyniol:
 - Bathodyn ID cyflogai Cyngor Bro Morgannwg dilys
 - Slip cyflog cyngro Bro Morgannwg diweddaraf